# MESUR PLANT A THEULUOEDD (CYMRU) 2010

## EXPLANATORY NOTES

### Rhan 3: Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd

#### *Adran 61 Sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd*

126. Mae adran 61 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i sefydlu Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gyfer ei ardal. Mae adran 58(4) yn ei gwneud yn ofynnol i TICD gyflawni ei swyddogaethau o dan gyfarwyddyd ei fwrdd. Rhaid i'r bwrdd gynnwys:

- cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol;
- cyfarwyddwr arweiniol statudol y gwasanaethau plant a phobl ifanc (o dan a.27 o Ddeddf Plant 2004 (p 21)) os nad ef yw'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol;
- y swyddog arweiniol dros wasanaethau plant a phobl ifanc o'r Bwrdd Iechyd Lleol.

127. Mae'r darpariaethau yn galluogi awdurdodau lleol i gyfethol aelodau eraill i'r Bwrdd gyda chydsyniad y Bwrdd Iechyd Lleol ac i dalu taliadau a lwfansau i aelodau cyfetholedig a benodir o dan is-adran (5).